

Cardiau Darllen Grŵp

(Pecyn 2)

Canllawiau i'r athro



“Dysgu sut i ddarllen yw'r sylfaen i ddyfodol addysgol

llwyddiannus”

ESTYN



Pwysigrwydd Darllen

Cymraeg

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio

Darllen

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddefnyddio strategaethau gwahanol er mwyn canfod ystyr a chasglu gwybodaeth mewn testunau
- ddarllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd

Ystod

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfrgar
- ddarllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys darllen mewn grŵp.
- brofi amrywiaeth o destunau a ffurfiau

Beth yw darllen grŵp?

- Grŵp o chwech neu lai o ddisgyblion yn darllen yr un testun.
- Y testun hwnnw yn dod yn sail i drafodaeth.
- Nifer helaeth o destunau amrywiol yn cael eu defnyddio.

Beth yw manteision darllen grŵp?

- Pwrpas darllen grŵp yw datblygu darllenwyr annibynnol.
- Mae'n rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill sy'n yr un grŵp â nhw.
- Rhwir cyfle iddyn nhw fynegi barn a chynnig rhesymau dros y farn honno.
- Mae'n rhoi cyfle iddyn nhw ddatrys problemau
- Mae'n datblygu eu sgiliau holi.

Datblygu Sgiliau Darllen (Cyhoeddiadau CBAC)

Sut mae mynd ati i ddarllen grŵp?

- Rhaid pennu amser penodol i weithgaredd darllen grŵp (mae angen iddo fod yn rhan o amserlen y dosbarth).
- Rhaid parhau i wneud hyn yn rheolaidd
- Bydd angen rhannu'r disgyblion i grŵpiau o bedwar neu lai mewn nifer, a hynny yn unol â gallu, oedran, diddordeb, a.y.y.b.
- Dylid amrywio'r grŵpiau drwy asesu parhaol — rhaid bod yn hyblyg i wneud newidiadau.
- Cyn cyflwyno'r testun mae'n syniad i fynd ati i dynnu sylw'r disgyblion at unrhyw eiriau newydd ac anghyfarwydd.
- Bydd angen copi o'r testun ar bob disgybl
- Dylid cyflwyno'r testun cyn dechrau ar y darllen drwy drafod: Pa fath o destun? Beth yw nodweddion y testun? a.y.y.b.
- Dylai'r testun hwnnw fod yn sbardun i drafodaeth lle ceir amrywiaeth o gwestiynau caeedig a phen agored.

Sut mae defnyddio'r Cardiau Darllen Grŵp?

- Yn y pecyn ceir 25 o gardiau darllen sy'n amrywio o ran cynnwys y testunau o fod yn ddyddiadur, cerddi, llythyr, testun ffeithiol, a.y.y.b.
- Bydd angen rhannu'r disgyblion i grŵpiau o bedwar disgybl neu lai mewn nifer, a hynny yn unol â gallu, oedran, diddordeb a.y.y.b.
- Bydd angen dewis un o'r cardiau darllen i'w hastudio ar y tro.
- Mae'r cardiau wedi eu gwahaniaethu, felly bydd angen dewis yr ochr lliw pinc (i'r darllenwyr hynny sydd angen hwb) neu'r ochr werdd (ar gyfer darllenwyr mwy hyderus).
- Gellir amrywio technegau o ran y darllen — darllen unigol, darllen gyda chymorth neu gyd-darllen, fel bo'n addas.
- Ar ddiwedd pob cerdyn ceir cwestiynau lle mae'r atebion ynghudd yn y testun ac un cwestiwn sy'n ennyn trafodaeth.
- Anelir at gyflawni'r dasg o fewn 30 munud.

Lliw pinc ar gyfer y darllenwyr sydd angen hwb

Aberaeron

Cyn 1807 pentref bach pygta oedd Aberaeron. Daeth newidiadau mawr ar ôl i'r Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne benderfynu defnyddio'r arian i adeiladu harbwr. Cyn hyn roedd yr harbwr agosaf yn Aberarth.

Daeth llawer o seiri ac adeiladau i'r dref i weithio felly roedd rhaid adeiladu tai ar eu cyfer. Mae'r dref wedi dod yn enwog am ei bod wedi cael ei chynllunio o'falus. Bob pen i strydoedd y dref mae tai mawr gyda thali i'w ffont rhyngddynt. Maent hefyd yn enwog am fod yn strydoedd llwgar iawn.

Roedd tua 70 o longau wedi cael eu hadeiladu yn yr harbwr.

Dyddiadau diddorol:

1807: dechrau adeiladu'r harbwr
1911: y rheilffordd yn dod i Aberaeron a gafodd effaith fawr ar y diwydiant llongau
1934: y llong fueses claf yn gosod yr harbwr
2007: dathlu dau garmwlwyddiant o fodolaeth

Tachwedd y 13eg y ffair flynyddol

Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd yn gyfrifol am y newidiadau a dddech i'r dref?
2. Beth sy'n arbennig ynglŷn â thali Aberaeron?
3. Pam ddaeth diwedd ar y diwydiant llongau yn y dref?
4. Roedd 2007 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes y dref Pam?
5. Faint o longau gafodd eu hadeiladu yn yr harbwr?

Edrychwch ar y llun canlynol o waith yr artist, Helen Elliott.

Beth sy'n debyg ac yn wahanol yn y ddau lun o'r dref?

5 cwestiwn am gynnwys y testun

cwestiwn trafod cyffredinol

testun darllen
(llai o wybodaeth na'r cerdyn gwyrdd)

Lliw gwyrdd ar gyfer y darllenwyr mwy hyderus

Aberaeron

Cyn 1807 pentref bach pygta oedd Aberaeron, ond ar ôl cael canolfan adeiladu harbwr daeth newidiadau mawr. Y Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne oedd yn gyfrifol am y newidiadau yma a hynny ar ôl i ddod i'r arag etifeddau llawer iawn arian. Fe benderfynodd y ditectifdan arian i adeiladu harbwr yn y dref. Cyn hyn roedd yr harbwr agosaf yn Aberarth.

Daeth llawer o seiri ac adeiladau i'r dref i weithio a buan oedd rhaid adeiladu tai ar eu cyfer. Mae'r dref yn enwog am ei bod wedi cael ei chynllunio o'falus. Gyda thali y gwastatwr enwog, John Nash. Bob pen i strydoedd y dref mae tai mawr a thali i'w ffont rhyngddynt. Mae strydoedd y dref yn enwog am fod yn llwgar iawn.

Oedid bod tua 70 o longau wedi cael eu hadeiladu yn yr harbwr.

Dyddiadau diddorol:

1807: dechrau adeiladu'r harbwr
1911: y rheilffordd yn dod i Aberaeron a gafodd effaith fawr ar y diwydiant llongau
1934: y llong fueses claf yn gosod yr harbwr
2007: dathlu dau garmwlwyddiant o fodolaeth

Tachwedd y 13eg y ffair flynyddol

Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth ddigwyddodd ym 1807?
2. Pwy oedd yn gyfrifol am y newidiadau?
3. Beth sy'n arbennig ynglŷn â thali Aberaeron?
4. Beth oedd yn gyfrifol am ddiwedd y diwydiant llongau yn y dref?
5. Roedd 2007 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes y dref Pam?
6. Faint o longau gafodd eu hadeiladu yn yr harbwr?

Edrychwch ar y llun canlynol o waith yr artist, Helen Elliott.

Beth sy'n debyg ac yn wahanol yn y ddau lun o'r dref?

6 cwestiwn am gynnwys y testun

cwestiwn trafod cyffredinol

testun darllen
(mwy o wybodaeth na'r cerdyn hufen)

Sgiliau:	Pa gardiau sy'n addas? Beth yw'r weithgaredd ymestynnol?							
Ymchwiliol / Ffeithiol / Defnyddio'r We	<u>Cymharu Yr Aifft a'r U.D.A:</u> creu ffeil ffeithiau am Gymru	<u>Yr Wyddfa:</u> cynllunio taith	<u>Ynys Enlli:</u> ymweld â gwefan	<u>Cors Caron:</u> ymweld â gwefan	<u>Dilo:</u> cywain gwybodaeth am ddolffiniaid	<u>Llewod:</u> cywain gwybodaeth am lewod		
Pynciau sy'n ennyn traf-odaeth	<u>Crocodeil:</u> creulondeb v byd busnes	<u>Cadw'r Car:</u> mynegi barn ar yr amgylchedd	<u>Clecs:</u> trafod cynnwys cylchgrawn ysgol	<u>Helen Elliott:</u> eiddo gwethfawr a pham	<u>Corryn:</u> pethau sy'n codi ofn			
Datblygu elfennau creadigol	<u>Aberaeron:</u> cymharu dau lun o'r dref	<u>Aneurin Jones:</u> sgwrs rhwng dau gymeriad	<u>Chwedl Rhys a Meinir:</u> pennawd adroddiad papur newydd	<u>Siôn Cwilt:</u> camau pellach yn natblygiad y plot				
Datblygu sgiliau gramadegol	<u>Y Titanic:</u> geiriau cyfansawdd	<u>"Brownies" Siocled:</u> berfau gorchmynnol	<u>Hysbysebion:</u> iaith hysbysebion	<u>Sgwrsio:</u> defnyddio'r iaith lafar wrth ysgrifennu	<u>Y Daith:</u> defnyddio lliw i greu teimladau	<u>Siencyn a Dan Draed:</u> ansoddeiriau	<u>Dic Penderyn:</u> dweud ac ysgrifennu'r dyddiad	<u>Porthladd Aberteifi:</u> treiglo ar ôl o
Chwilio am batrymau	<u>Ymwelydd yn y Bath:</u> chwilio am batrymau odli	<u>Llanerchaeron:</u> llunio rhestr yn nhrefn Yr Wyddor						

Ynys Enlli



- Mae Ynys Enlli 3 cilomedr ar draws y môr o Benrhyn Llŷn, Gogledd Cymru.
- Mae dros 178 o hectarau o dir ar yr ynys.
- Mae nifer o adeiladau ar yr ynys, yn cynnwys tai, adeiladau amaethyddol, ysgol, capel a goleudy.
- Adeiladwyd y goleudy yn y flwyddyn 1821.
- Mae'r ynys yn gartref i lawer o anifeiliaid, adar, a phlanhigion o bob math, gan gynnwys y morlo llwyd.
- Mae tir amaethyddol ar yr ynys, ac mae ffermwyr yn cadw defaid a gwartheg duon Cymreig yno.

Tripiau Dydd i Ynys Enlli

Gadael Porth Meudwy am 9.30a.m.
Dychwelyd am 4p.m.

Cyfle da i grwydro llwybrau'r ynys

Am fwy o wybodaeth:
08458113655



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ble mae Ynys Enlli?
2. Pa fath o adeiladau sydd ar yr ynys?
3. Pam ydych chi'n meddwl fod yna oleudy ar yr ynys?
4. O ble fyddai'n rhaid gadael i gyrraedd yr ynys?
5. Beth sydd i wneud ar yr ynys?


Edrychwch:

Ewch i edrych ar y wefan:

www.enlli.org

i gael gweld lluniau a darllen ffeithiau diddorol am y lle.

Rhannwch yr hyn a welsoch ac a ddysgoch gydag aelodau'r grŵp.



Ynys Enlli



- Mae Ynys Enlli 3 cilomedr ar draws y môr o Benrhyn Llŷn, Gogledd Cymru.
- Mae dros 178 o hectarau o dir ar yr ynys.
- Mae nifer o adeiladau ar yr ynys gan gynnwys tai, adeiladau amaethyddol, ysgol, capel a goleudy.
- Adeiladwyd y goleudy yn y flwyddyn 1821.
- Cafodd y rhan fwyaf o'r adeiladau sydd ar yr ynys eu hadeiladu yn yr 1870'au.
- Mae'r ynys yn gartref i lawer o anifeiliaid, adar, a phlanhigion o bob math, gan gynnwys y morlo llwyd.
- Mae'r ynys yn cael ei gwarchod gan Ymddiriedolaeth yr ynys a'r Cyngor Cefn Gwlad.
- Mae tir amaethyddol ar yr ynys, ac mae ffermwyr yn cadw defaid a gwartheg duon Cymreig yno.

Tripiau Dydd i Ynys Enlli

Gadael Porth Meudwy am 9.30a.m.
Dychwelyd am 4p.m.

Cyfle da i grwydro llwybrau'r ynys

Am fwy o wybodaeth:
08458113655



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ble mae Ynys Enlli?
2. Pa fath o adeiladau sydd ar yr ynys?
3. Pam ydych chi'n meddwl fod yna oleudy ar yr ynys?
4. Sut mae cyrraedd Ynys Enlli?
5. O ble fyddai'n rhaid gadael i gyrraedd yr ynys?
6. Pe baech chi'n mynd am y dydd i'r ynys, pa bethau fydddech chi'n mynd gyda chi? Pam?


Edrychwch:

Ewch i edrych ar y wefan:

www.enlli.org

i gael gweld lluniau a darllen ffeithiau diddorol am y lle.

Rhannwch yr hyn a welsoch ac a ddysgoch gydag aelodau'r grŵp.



Crocodeil

Mae'r crocodeil yn un o anifeiliaid mwyaf peryglus y byd. Nid yw'n rhedeg ar ôl ei ysglyfaeth ond yn hytrach mae'n aros yn llonydd tan fod y pysgod a'r anifeiliaid yn agos ato. Bryd hynny, fe fydd yn ymosod. Mae siâp ei gorff hefyd yn ei alluogi i ymlusgo'n araf a thawel yn y dŵr ac ar dir sych. Bryd arall, mae'n medru symud yn gyflym iawn. Maent yn medru byw am gyfnod hir heb unrhyw fwyd o gwbl. Mae'n bwyta pysgod, adar, mamaliaid a weithiau crocodeilod bach.



Roedd y crocodeil mwyaf i gael ei fesur yn 8.6 metr o hyd. Cafodd ei ddal yn Awstralia ym 1957.

Maent yn medru byw am 70 mlynedd a chredir bod rhai yn byw i fod yn 100 oed!


Credir mai'r crocodeil yw'r anifail hynaf yn y byd gan ei fod o gwmpas ers 200 miliwn o flynyddoedd—cyn, yn ystod ac ar ôl oes y deinosoriaid.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sut mae'r crocodeil yn dal ei fwyd?
2. Beth yw bwyd y crocodeil?
3. Beth oedd maint y crocodeil mwyaf i gael ei ddal?
4. Beth arall ydych chi wedi dysgu am y crocodeil?

Trafodwch:-



Ydy hi'n deg ffermio crocodeilod er mwyn eu lladd ar gyfer defnyddio eu crwyn i greu nwyddau fel esgidiau a bagiau? Trafodwch fel grŵp.

Crocodeil

Mae'r crocodeil yn perthyn i deulu'r Crocodylidae. Mae'n un o anifeiliaid mwyaf peryglus y byd. Nid yw'n rhedeg ar ôl ei ysglyfaeth ond yn hytrach mae'n aros yn llonydd tan fod y pysgod a'r anifeiliaid yn agos ato. Bryd hynny, fe fydd yn ymosod. Mae siâp ei gorff hefyd yn ei alluogi i ymlusgo'n araf a thawel yn y dŵr ac ar dir sych. Bryd arall, mae'n medru symud yn gyflym iawn. Maent yn medru byw am gyfnod hir heb unrhyw fwyd o gwbl. Mae'n bwyta pysgod, adar, mamaliaid a weithiau crocodeilod bach.



Roedd y crocodeil mwyaf i gael ei fesur yn 8.6 metr o hyd. Cafodd ei ddal a'i saethu yn Awstralia ym 1957.

Credir mai'r crocodeil yw'r anifail hynaf yn y byd gan ei fod o gwmpas ers 200 miliwn o flynyddoedd—cyn, yn ystod ac ar ôl oes y deinosoriaid.

Maent yn medru byw am 70 mlynedd a chredir bod rhai yn byw i fod yn 100 oed!


Y crocodeil yw'r anifail sydd â'r cnoad cryfaf o holl anifeiliaid y byd.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sut mae'r crocodeil yn dal ei fwyd?
2. Beth ddaliwyd yn Awstralia ym 1957?
3. Am ba hyd maent yn medru byw?
4. Ers pryd mae'r crocodeil o gwmpas?
5. Beth fedrwch chi ddweud am y ffordd mae'n symud?
6. Beth arall ydych chi wedi dysgu am y crocodeil?

Trafodwch:-



Ydy hi'n deg ffermio crocodeilod er mwyn eu lladd ar gyfer defnyddio eu crwyn i greu nwyddau fel esgidiau a bagiau? Trafodwch fel grŵp.

DÍLO

Ychydig amser cyn i Dilo gael ei eni, roedd ei fam yng nghwmni dau ddolffin arall a oedd wedi bod yn ffrindiau iddi ers tro byd. Roedden nhw wrth eu bodd yn chwarae, ac un o'u hoff gêmau oedd gwibio drwy'r dŵr cyn neidio'n uchel i'r awyr.

Weithiau, roedden nhw'n cael cymaint o hwyl nes eu bod yn bwrw yn erbyn ei gilydd.

Un diwrnod, trodd y chwarae'n chwerw pan gafodd mam Dilo ei brifo gan un ohonyn nhw. Nofiodd i ffwrdd—ond daeth ei ffrindiau ar ei hôl, gan feddwl mai rhan o'r gêm oedd hyn.

(tudalennau 5—6)

Detholiad allan o'r nofel
DÍLO
(Cyfres Corryn)




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa anifail sydd yn y stori?
 2. Beth yw un o'u hoff gêmau?
 3. Beth yw ystyr "chwarae'n troi'n chwerw"?
 4. Pam aeth ei ffrindiau ar ei hôl?
 5. Ydych chi erioed wedi gweld dolffin? Ymhle?
- Disgrifiwch yr anifail.

Ymchwiliwch: -

Ewch ati i chwilio am ddwy ffaith ddiddorol am y dolffin. Dewch o hyd i wybodaeth am eu:

- ♦ pwysau;
- ♦ maint.



DILO

Ychydig amser cyn i Dilo gael ei eni, roedd ei fam yng nghwmni dau ddolffin arall a oedd wedi bod yn ffrindiau iddi ers tro byd. Roedden nhw wrth eu bodd yn chwarae, ac un o'u hoff gêmau oedd gwibio drwy'r dŵr cyn neidio'n uchel i'r awyr. Weithiau, roedden nhw'n cael cymaint o hwyl nes eu bod yn bwrw yn erbyn ei gilydd.

Un diwrnod, trodd y chwarae'n chwerw pan gafodd mam Dilo ei brifo gan un ohonyn nhw. Nofiodd i ffwrdd—ond daeth ei ffrindiau ar ei hôl, gan feddwl mai rhan o'r gêm oedd hyn. Er iddi wichio mewn protest, dal i fwrw yn ei herbyn wnaeth y ddau. Fe wnaeth hyn iddi wylltio'n gacwn—peth prin iawn i ddolffin ei wneud. Fe gododd hyn fraw ar ei ffrindiau ac ar ôl hynny bu'r tri dolffin yn pwdu ac yn tin-droi'n ddiflas am sbel, heb wybod yn iawn beth i wneud nesaf.

(tudalennau 5—6)

Detholiad allan o'r nofel
DILLO
(Cyfres Corryn)




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa anifail sydd yn y stori?
 2. Beth yw un o'u hoff gêmau?
 3. Beth yw ystyr "chwarae'n troi'n chwerw"?
 4. Beth dydy dolffin ddim yn ei wneud yn aml?
 5. Beth ydych chi'n meddwl wnaeth y tri ffrind nesaf?
 6. Ydych chi erioed wedi gweld dolffin? Ymhle?
- Disgrifiwch yr anifail.

Ymchwiliwch:-

Ewch ati i chwilio am dair ffaith ddiddorol am y dolffin. Dewch o hyd i wybodaeth am eu:

- ♦ pwysau;
- ♦ maint;
- ♦ unrhyw ffaith am y ffordd maen nhw'n nofio



"Brownies" Siocled

Cynhwysion

120g o fenyn meddal
200g o siocled plaen
165g o siwgr gwyn mân
2 ŵy—wedi'u curo
1 llwy de o rhinflas fanila
140g o flawd plaen
100g o gnau pecan wedi torri'n fân
Siwgr—i addurno



Dull:

- Toddwch y menyn a thri chwarter y siocled.
- Cymysgwch yn dda.
- Ychwanegwch y siwgr, wyau a'r fanila a'u chwipio gyda chymysgydd trydan.
- Ychwanegwch y blawd yn araf a gwnewch yn siŵr ei fod wedi ei gymysgu'n dda.
- Rhowch bapur saim mewn tun pobi 20cm.
- Rhowch y gymysgedd yn y tun.
- Gorchuddiwch gyda'r cnau a gweddill y siocled.
- Pobwch mewn ffwrn o wres o 180° am 17-18 munud.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sawl gram o siwgr gwyn mân sydd ei angen i wneud 'Brownies' Siocled?
2. Sawl berf yn gorffen gydag **-wch** ydych chi'n gallu gweld yn y rysait?
3. Pa fath o lwy sydd ei angen i fesur y rhinflas fanila?
4. Ydych chi'n hoffi coginio? Dywedwch wrth weddill y grŵp beth yw eich hoff rysait?



Mae llawer o orchmynion yn y rysait. Mae'r berfau sy'n gorffen gydag **-wch** yn dweud wrthoch chi beth i'w wneud. Ydych chi'n gallu meddwl am 5 berf gorchmynnol sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol.

"Brownies" Siocled

Cynhwysion

120g o fenyn meddal
200g o siocled plaen
165g o siwgr gwyn mân
2 ŵy—wedi'u curo
1 llwy de o rhinflas fanila
140g o flawd plaen
100g o gnau pecan wedi torri'n fân
Siwgr—i addurno




Dull

- Toddwch y menyng a thri chwarter y siocled. Cymysgwch yn dda.
- Ychwanegwch y siwgr, wyau a'r fanila a'u chwipio gyda chymysgydd trydan.
- Ychwanegwch y blawd yn araf a gwnewch yn siŵr ei fod wedi ei gymysgu'n dda.
- Rhewch bapur saim mewn tun pobi 20cm.
- Rhewch y gymysgedd yn y tun.
- Gorchuddiwch gyda'r cnau a gweddill y siocled.
- Pobwch mewn ffwrn o wres o 180° am 17-18 munud.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Faint o flawd plaen sydd eisiau i wneud 'Brownies' Siocled?
2. Beth yw maint y tun pobi?
3. Beth ddylid defnyddio i gymysgu'r siwgr, yr wyau a'r fanila gyda'r siocled a'r menyng?
4. Faint yn fwy o siocled na siwgr mân sydd ei angen?
5. Sut y dylid ychwanegu'r blawd i'r gymysgedd?
6. Ydych chi'n hoffi coginio? Dywedwch wrth weddill y grŵp beth yw eich hoff rysait.



Mae llawer o orchmynion yn y rysait. Mae'r berfau sy'n gorffen gydag -wch yn dweud wrthydd chi beth i'w wneud. Ydych chi'n gallu meddwl am 10 berf gorchmynnol sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol.

Hysbyssebion

Bysiau Bishi



"Sound of Music"
gyda Connie Fisher.

Canolfan y Mileniwm
Caerdydd
Sadwrn 29 Awst, 2009

Taith i Baris
Mehefin 2010

(tocynnau i hwylio ar Y
Seinne a gwesty moethus)

Am fanylion llawn ffoniwch:
(01239) 851386

D & G Evans



Gwaith Aradr ac Oged;
Lladd Gwair; Topo Caeau;
Bêls Sgwâr a Chrwn; Torri
Cloddiau; Treilar ar Log;
Sgwaru Tail.

Parc Mawr, Pen y Bryn,
Ceredigion

Ffôn: (01556) 987342

Clwb Pêl Droed Parc Deri



Barbeciw

Byrgyrs, Cŵn poeth a diod
£3.00

Nos Sadwrn, Mehefin 13eg.
Cystadleuaeth tynnu rhaff a
rasys.

Dewch i gefnogi.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r
atebion.

1. Ym mha ddinas mae Connie Fisher yn
perfformio?
2. Beth yw cyfeiriad D & G Evans?
3. Pa gystadleuaeth sydd yn y barbeciw?
4. Pryd mae'r daith i Baris?




Trafodwch:-

Pe baech chi yn llunio hysbyseb
am ddiwrnod mabolgampau'r
ysgol, pa wybodaeth fyddai
angen ei chynnwys?

Hysbyssebion

Bysiau Bishi



"Sound of Music"
gyda Connie Fisher.

Canolfan y Mileniwm
Caerdydd

Sadwrn 29 Awst, 2009

Taith i Baris

Mehefin 2010

(tocynnau i hwylio ar Y
Seine a gwesty moethus)

Am fanylion llawn ffoniwch:
(01239) 851386

Ar Werth

Cŵn bach Labrador

3 gast, 4 ci

Ffoniwch:

(01239) 615344



D & G Evans



Gwaith Aradr ac Oged;
Lladd Gwair; Topo Caeau;
Bêls Sgwâr a Chrwn; Torri
Cloddiau; Treilar ar Log;
Sgwaru Tail.

Parc Mawr, Pen y Bryn,
Ceredigion

Ffôn: (01556) 987342

Clwb Pêl Droed Parc Deri



Barbeciw

Byrgyrs, Cŵn poeth a diod

£3.00


Nos Sadwrn, Mehefin 13eg.
Cystadleuaeth tynnu rhaff a
rasys.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r
atebion.

1. Sawl ci bach sydd ar weth?
2. Pa fudiad sy'n cynnal barbeciw?
3. Ym mhle mae Connie Fisher yn perfformio?
4. Pryd mae'r trip yn mynd i Baris?
5. Beth yw rhif ffôn D & G Evans?
6. Enwch 4 peth mae'r contractwyr amaethyddol yn eu gwneud.

Trafodwch:-



- Pa fath o iaith sy'n cael ei defnyddio mewn hysbyseb?
- Beth sy'n gwneud hysbyseb dda?

Clecs

Straeon ac hanesion o'ch cornel chi o Geredigion.

Llandeifi



Llongyfarchiadau

Llongyfarchaidau mawr i Linda a Rhys Thomas ar enedigaeth Hawys Fflur a aned ar y 4ydd o Fawrth.

Ysgol Feithrin

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am gefnogi'r bore agored. Codwyd £143.00. Bydd yr elw yn mynd tuag at drip i Fferm Ffoli.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Mrs Nela Jones, Rhandir, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Ebrill.

Pen-blwydd Hapus i Ioan Evans, Arosfa, yn 18 oed ar ddiwedd y mis.

Yr Ysgol Sul

Llongyfarchiadau i Osian, Megan, Endaf a Mari am fod yn llwyddiannus yn arholiad yr Ysgol Sul a chael marciau llawn.

Gwellhad Buan

- i Helen Davies Rhosnewydd sydd yn gwella yn yr ysbyty ar ôl iddi dorri ei chlun.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Pwy sydd wedi cael merch fach?
2. I ble mae'r Ysgol Feithrin yn mynd ar drip?
3. Pwy sydd wedi torri ei chlun?
4. Sut mae dweud y dyddiadau canlynol yn gywir?

01/01/2010

a

14/10/2001

Trafodwch:-



Meddyliwch am eitemau diddorol i gynnwys yng nghylchgrawn yr ysgol.

Clecs

Straeon ac hanesion o'ch cornel chi o Geredigion.



Llandeifi

Llongyfarchiadau

Llongyfarchaidau mawr i Linda a Rhys Thomas ar enedigaeth Hawys Fflur a aned ar y 4ydd o Fawrth.

Ysgol Feithrin

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am gefnogi'r bore agored. Codwyd £143.00. Bydd yr elw yn mynd tuag at drip i Fferm Ffoli.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Mrs Nela Jones, Rhandir ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Ebrill. Pen-blwydd Hapus i Ioan Evans, Arosfa, yn 18 oed ar ddiwedd y mis.

Yr Ysgol Sul

Llongyfarchiadau i Osian, Megan, Endaf a Mari am fod yn llwyddiannus yn arholiad yr Ysgol Sul a chael marciau llawn.

Gwellhad Buan

- i Helen Davies Rhosnewydd sydd yn gwella yn yr ysbyty ar ôl iddi dorri ei chlun.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Faint o arian a godwyd ym more agored yr Ysgol Feithrin?
2. Pwy sy'n dathlu pen-blwydd yn gant oed?
3. Faint o farciau gafodd y plant yn yr arholiad Ysgol Sul?
4. Ym mhle mae Helen Davies yn byw?
5. Pryd mae penblwydd Hawys Fflur?
6. Sut mae dweud y dyddiadau canlynol yn gywir?

01/01/2010

15/05/2012

27/10/2001

18/02/2000

Trafodwch:-



Meddyliwch am eitemau diddorol i'w cynnwys yng nghylchgrawn yr ysgol.

Llewod



Mae Llewod yn unigryw, gan mai nhw ydy'r unig gathod sy'n byw mewn grŵpiau.



Y llew gwryw yw'r unig gath i gael mwng, dyna pam mae e'n cael ei alw'n "Frenin y Jyngl".

Mae llewod yn gallu byw am 16 o flynyddoedd yn y gwyllt ac hyd at 25 o flynyddoedd mewn caethiwed.

Helwyr ydy llewod ac maent yn bwyta anifeiliaid fel ceirw, byffalo a sebra.

Ystadegau'r Llew

Hyd y corff: 170-190cm

Hyd cynffon: 70-150cm

Pwysau: Llew 150-222kg


Llewes: 120-150kg



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pam fod y llew'n cael ei alw'n "Frenin y Jyngl"?
2. Sut mae llewod yn hela?
3. Am faint o flynyddoedd mae llewod yn byw yn y gwyllt?
4. Meddyliwch am ansoddeiriau diddorol i ddisgrifio llewod.

Trafodwch:-



Beth am fynd ar y wê i ddarganfod rhagor o wybodaeth am lewod?

Adroddwch nôl i'r grŵp.

Llewod



Mae Llewod yn unigryw, gan mai nhw ydy'r unig gathod sy'n byw mewn grŵpiau.



Y llew gwryw yw'r unig gath i gael mwng, dyna pam y gelwir ef yn "Frenin y Jyngl".

Mae llewod yn gallu byw am 16 o flynyddoedd yn y gwyllt ac hyd at 25 o flynyddoedd mewn caethiwed.

Helwyr ydy llewod, maent yn hela mewn grŵpiau a'r llewesau sy'n hela fel arfer. Maent yn bwyta anifeiliaid fel ceirw, byffalo a sebra.

Ystadegau'r Llew

Hyd corff: 170-190cm

Hyd cynffon: 70-150cm

Pwysau: Llew 150-222kg

Llewes: 120-150kg



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Chwiliwch am ddau beth sy'n gwneud llewod yn unigryw.
2. Am faint mae llewod yn gallu byw mewn caethiwed?
3. Pa lewod sy'n hela fel arfer?
4. Pam fod y llew'n cael ei alw'n "Frenin y Jyngl"?
5. Beth yw pwysau llewes?
6. Ydych chi'n gallu meddwl am ansoddeiriau diddorol i ddisgrifio llewod?

Trafodwch: -



Beth am fynd ar y wê i ddarganfod rhagor o wybodaeth am lewod?

Adroddwch nôl i'r grŵp.



Yr Aifft

Enw llawn: Gweriniaeth Arabaidd yr Aifft

Poblogaeth: 76.8 miliwn

Prifddinas: Cairo

Arwynebedd: 1 miliwn km sgwar

Prif iaith: Arabaidd

Prif grefyddau: Islam a Christnogaeth

Hyd bywyd: 69 (dynion) 74 (menywod)

Arian: Punt Yr Aifft

Prif nwyddau allforio: Petrol, cynnyrch petrol, cotwm

Adeiladau enwog: Y Sphyns, Pyramidau



America

Enw llawn: Unol Daleithiau America

Poblogaeth: 308.8 miliwn

Prifddinas: Washington DC

Arwynebedd: 9.8 miliwn km sgwar

Prif iaith: Saesneg

Prif grefydd: Cristnogaeth

Hyd bywyd: 76 (dynion) 81 (menywod)

Arian: Doler

Prif nwyddau allforio: cyfrifiaduron, cynnyrch cemegol, bwyd, offer milwrol

Adeiladau Enwog: Cerflun Liberty, Pont Porth Aur (*Golden Gate Bridge*)



Geirfa

Poblogaeth—faint o bobl sy'n byw yn y wlad

Arwynebedd—maint y wlad

Hyd bywyd—pa mor hir mae dynion a menywod yn byw



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enw llawn Yr Aifft?
2. Beth yw prif iaith America?
3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng hyd bywyd pobl America a phobl yr Aifft?
4. Enwch un adeilad enwog yn America?
5. Sawl km² yn fwy yw America na'r Aifft?
6. Pa wlad sydd â'r boblogaeth fwyaf?




Trafodwch

Beth am fynd ati i wneud ffeil ffeithiau tebyg am Gymru.



Cors Caron



- Mae Cors Caron yn ardal o gorsdir rhwng Tregaron a Phontrhydfendigaid yng ngogledd Ceredigion.
- Yr afon Teifi yw'r brif afon sy'n llifo drwy'r corsdir.
- Mae wedi cymryd dros 12 mil o flynyddoedd i'r corsdir ddatblygu i fod fel ag y mae heddiw.
- Y Cyngor Cefn Gwlad sy'n rheoli'r gors.
- Mae cynefinoedd amrywiol tu hwnt i'w gweld yno sy'n gartref i bob math o anifeiliaid a phlanhigion.
- Mae llawer o anifeiliaid wedi ymgartrefu ar y gors a channoedd o adar.
- Mae llawer o bobl yn ymweld â'r gors bob blwyddyn i weld yr adar sy'n mudo o bob rhan o'r byd.
- Ar un adeg roedd yna reilffordd yn rhedeg ar hyd y gors, ond bellach mae'r hen reilffordd wedi ei throi'n lwybr beicio.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ble mae Cors Caron?
2. Beth yw'r brif afon sy'n llifo drwy'r gors?
3. Pwy sy'n gofalu am Gors Caron?
4. Pam fod pobl yn ymweld â'r gors?
5. Ydy hi'n bwysig i warchod llefydd fel Cors Caron? Pam? Trafodwch fel grŵp.

Ymchwiliwch:

Defnyddiwch y wê i ddod o hyd i enwau rhai planhigion, adar ac anifeiliaid sy'n byw ar y gors?

Lluniwch restr fer.



Cors Caron




- Mae Cors Caron yn ardal o gorsdir rhwng Tregaron a Phontrhydfendigaid yng ngogledd Ceredigion.
- Mae'n gorchuddio 2,000 o erwau.
- Yr afon Teifi yw'r brif afon sy'n llifo drwy'r corsdir.
- Mae wedi cymryd dros 12 mil o flynyddoedd i'r corsdir ddatblygu i fod fel ag y mae heddiw.
- Y Cyngor Cefn Gwlad sy'n rheoli'r Warchodfa.
- Mae cynefinoedd amrywiol tu hwnt i'w gweld yno sy'n gartref i bob math o anifeiliaid a phlanhigion.
- Gellir gweld brwyn, porfa, coedwigoedd, afonydd, nentydd a llynnoedd ar y gors.
- Mae llawer o anifeiliaid wedi ymgartrefu ar y gors a channoedd o adar.
- Mae llawer o bobl yn ymweld â'r gors bob blwyddyn i weld yr adar sy'n mudo o bob rhan o'r byd. Maent yn medru defnyddio'r cabanau gwyllo adar newydd sydd i'w cael ar wahanol ardaloedd ar y gors.
- Ar un adeg roedd yna reilffordd yn rhedeg ar hyd y gors, ond bellach mae'r hen reilffordd wedi ei throï'n lwybr beicio.
- Mae'r llwybr beicio'n ymestyn 6 cilomedr ar hyd y gors, ac yn wir, gellir beicio yr holl ffordd i Aberystwyth.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ble mae Cors Caron?
2. Beth yw'r brif afon sy'n llifo drwy'r gors?
3. Pwy sy'n gofalu am Gors Caron?
4. Beth yw maint y Warchodfa?
5. Pam fod pobl yn ymweld â'r gors?
6. Ydy hi'n bwysig i warchod llefydd fel Cors Caron?
Pam? Trafodwch fel grŵp.



Ymchwiliwch:

Defnyddiwch y wê i ddod o hyd i enwau rhai planhigion, adar ac anifeiliaid sy'n byw ar y gors?

Lluniwch restr fer.

Aneurin Jones

Cafodd Aneurin Jones ei fagu yn ardal Mynydd Epynt, Sir Frycheiniog. Ardal gwbl amaethyddol oedd hon. Mae'n cofio gweld dynion yn defnyddio ceffylau i drin y tir. Daeth ceffylau a chŵn defaid yn bwysig iawn iddo.

Dechreuodd ei ddiddordeb mewn arlunio wrth weld ei dad yn mwynhau tynnu lluniau o geffylau, pontydd, adeiladau a phob math o bethau. Yn wir, roedd pawb yn y cartref wrth eu bodd yn ymarfer tynnu llun. Ar ôl gorffen yn yr ysgol aeth i'r coleg yn Abertawe. Ar ôl y coleg bu'n gweithio fel cynllunydd ffenestri lliw ac yna'n athro. Heddiw, mae'n arlunydd poblogaidd ac enwog iawn.



Beth sy'n arbennig ynglŷn â'i luniau?

- Mae cefn gwlad yn bwysig iawn.
- Mae ceffylau, cŵn defaid a phobl yn bwysig iawn.
- Nid yw'r bobl byth yn symud, maent yn sefyll ar ben eu hunain yn meddwl neu'n sefyll mewn grŵp yn sgwrsio.
- Mae gan y cymeriadau ddwylo a thraed mawr—arwydd eu bod yn rhan o'r tir.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Am beth mae Aneurin Jones yn enwog?
2. Sut ddechreuodd ei ddiddordeb mewn arlunio?
3. Pa fath o ardal yw Mynydd Epynt?
4. Beth sy'n arbennig ynglŷn â'r cymeriadau sydd yn ei luniau? Pam?
5. Ydych chi'n hoffi gwaith Aneurin Jones? Pam?

Edrychwch yn fanwl ar y llun canlynol:

Pwy yw'r ddau gymeriad?
Am beth maen nhw'n siarad?
Trafodwch gydag aelodau'r grŵp.



Aneurin Jones

Mae Aneurin Jones yn dweud bod ei fagwraeth yn ardal Mynydd Epynt, Sir Frycheiniog, wedi cael dylanwad mawr ar ei fywyd a'i waith fel arlunydd. Ardal gwbl amaethyddol oedd hon. Mae'n cofio gweld dynion yn defnyddio ceffylau i drin y tir. Daeth ceffylau a chŵn yn agos iawn at ei galon. Yn wir, rhoddodd gynnig ar gystadlu mewn treialon cŵn defaid fwy nag unwaith. Dechreuodd ymddiddori mewn arlunio wrth weld ei dad yn mwynhau tynnu lluniau o geffylau, pontydd, adeiladau a phob math o bethau, ac roedd pawb yn y cartref wrth eu bodd yn ymarfer tynnu llun. Felly, peth naturiol iawn oedd iddo i fynd i'r Coleg yn Abertawe i astudio Celf. Bu'n gweithio am gyfnod fel cynllunydd ffenestri lliw cyn mynd yn athro Celf yn Ysgol Gyfun y Preseli.



Beth sy'n arbennig ynglŷn â'i luniau?



- Mae cefn gwlad yn bwysig iawn.
- Mae ei luniau yn dangos dylanwad ei fagwraeth.
- Mae ceffylau, cŵn defaid a phobl yn bwysig iawn.
- Nid yw'r bobl byth yn symud, maent yn sefyll ar ben eu hunain yn meddwl neu'n sefyll mewn grŵp yn sgwrsio.
- Mae gan y cymeriadau ddwylo a thraed mawr—arwydd eu bod yn rhan o'r tir.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Am beth mae Aneurin Jones yn enwog?
2. Beth sydd wedi dylanwadu ar ei waith?
3. Sut ddechreuodd ei ddiddordeb mewn arlunio?
4. Pa fath o ardal yw Mynydd Epynt?
5. Beth sy'n arbennig ynglŷn â'r cymeriadau sydd yn ei luniau? Pam?
6. Ydych chi'n hoffi gwaith Aneurin Jones? Pam?

Edrychwch yn fanwl ar y llun canlynol:

Pwy yw'r ddau gymeriad?
Am beth maen nhw'n siarad?
Trafodwch gydag aelodau'r grŵp.



Helen Elliott

Ble ydych chi'n gweithio?
Castell Newydd Emlyn

Daeth y cyfweiliad hwn o
wefan y BBC.

Sut wnaethoch chi ddechrau eich gyrfa fel arlunydd?
Trwy liwio i mewn! Rydw i bob amser wedi dwlu ar liwio
mewn ac yna pan wnes i ddechrau peintio'n broffesiynol
fe wnes i newid yn ôl i liwio i mewn yn glou iawn!

Ydych chi'n cael eich dylanwadu gan yr ardal leol?
Mae'r lluniau bob amser o'r ardal leol, o fewn 50 milltir i
adref. Mae adeiladau a phobl lleol yn bwysig iawn i mi.

Ym mhle mae eich gwaith wedi cael ei arddangos?
Mae fy ngwaith yn cael ei arddangos mewn galerïau lleol:
Aberteifi, Llandudoch, Trefin, Caerfyrddin, Arberth,
Aberaeron a Llandeilo.

* Mae lluniau Helen Elliott
yn lliwgar iawn.


* Mae ei chi bach Jack
Russell, Minnie, ym mhob
llun o'i gwaith.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r
atebion.

1. Beth yw gwaith Helen Elliott?
2. Pa fath o luniau ydyn nhw?
3. Pwy sy'n ymddangos ym mhob llun?
4. Ble mae ei gwaith yn cael ei arddangos?
5. Beth yw eich barn chi am y llun? Pam?

Trafodwch:



Mae'n amlwg bod ei chi bach yn
bwysig iawn i Helen Elliott gan ei fod
yn cael lle ym mhob llun o'i gwaith. Pe
baech chi'n arlunydd beth fydddech
chi am gynnwys yn eich gwaith chi?
Pam?

Helen Elliott

Ble ydych chi'n gweithio?

Castell Newydd Emlyn

Daeth y cyfweiliad hwn o
we an y BBC.

Sut wnaethoch chi ddechrau eich gyrfa fel arlunydd?

Trwy liwio i mewn! Rydw i bob amser wedi dwlu ar liwio mewn ac yna pan wnes i ddechrau peintio'n broffesiynol fe wnes i newid yn ôl i liwio i mewn yn glou iawn!

Sut fydddech chi'n disgrifo eich gwaith?

Mae mewn arddull naif iawn. Un o'r arlunwyr mwyaf dylanwadol ar fy ngwaith yw Lowri.

Ydych chi'n cael eich dylanwadu gan yr ardal leol?

Mae'r lluniau bob amser o'r ardal leol, o fewn 50 milltir i adref. Mae adeiladau a phobl lleol yn ddylanwad mawr arnaf i.

Ym mhle mae eich gwaith wedi cael ei arddangos?

Mae fy ngwaith yn cael ei arddangos mewn galerïau lleol: Aberteifi, Llandudoch, Trefin, Caerfyrddin, Arberth, Aberaeron a Llandeilo.

* Mae lluniau Helen Elliott yn lliwgar iawn.


* Mae ei chi bach Jack Russell, Minnie, ym mhob llun o'i gwaith.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw gwaith Helen Elliott?
2. Pwy sydd wedi dylanwadu ar ei gwaith?
3. Pa fath o luniau ydyn nhw?
4. Pwy sy'n ymddangos ym mhob llun?
5. Ble mae ei gwaith yn cael ei arddangos?
6. Beth yw eich barn chi am y llun? Pam?


Trafodwch:



Mae'n amlwg bod ei chi bach yn bwysig iawn i Helen Elliott gan ei fod yn cael lle ym mhob llun o'i gwaith. Pe baech chi'n arlunydd beth fydddech chi am gynnwys yn eich gwaith chi? Pam?

Corryn

Anifail sy'n perthyn i grŵp o'r enw Arachnida yw'r pryf copyn neu'r corryn. Mae ganddo wyth coes. Mae'r corryn yn dal ei fwyd mewn sawl ffordd, e.e. nyddu gwe, neidio ar ei ysglyfaeth, neu ddefnyddio cuddliw. Weithiau mae'n defnyddio hylif arbennig o'i gorff i ladd ei fwyd.



Mae dros 40,000 o wahanol fathau o bryfed cop i'w cael trwy'r byd.

Mae'r rhan fwyaf o bryfed cop yn fach iawn, ond mae yna un math sydd maint llaw, sef y Tarantwla.

Mae dros 600 o wahanol fathau o bryfed cop i'w cael ym Mhrydain.

Mae pobl sydd yn ofni pryfed cop yn dioddef o Arachnoffobia.

Daeth y wybodaeth o'r llyfr:
BWYSTFILOD BYCHAIN




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa ddau enw a ddefnyddir am yr anifail?
2. I ba grŵp o anifeiliaid mae'n perthyn?
3. Sawl ffang sydd gan y corryn?
4. Sut mae'r corryn yn dal ei fwyd?
5. Sawl gwahanol fath o bryfed cop sydd ym Mhrydain?


Trafodwch:-

Mae llawer iawn o bobl yn ofnus iawn o gorynnod? Ydych chi'n un o'r rhain? Os nad ydych chi, beth sy'n eich gwneud chi i deimlo'n ofnus? Pam? Rhannwch eich teimladau gyda'r grŵp.



Corryn

Anifail sy'n perthyn i grŵp o'r enw Arachnida yw'r pryf copyn neu'r corryn. Mae ganddo wyth coes. Mae'n dal ei fwyd mewn sawl ffordd, e.e. nyddu gwe, neidio ar ei ysglyfaeth, neu ddefnyddio cuddliw. Weithiau mae'n defnyddio hylif arbennig o'i gorff i ladd yr ysglyfaeth. Bydd yr hylif yn llifo drwy'r ffang ac yn parlysu'r ysglyfaeth. Mae'r corryn yn dodwy wyau mewn sach o sidan a phan fydd yr wyau'n deor mae'r pryfed cop bychain yn edrych yr un fath â'u rhieni.



Mae dros 40,000 o wahanol fathau o bryfed cop i'w cael trwy'r byd.

Mae'r rhan fwyaf o bryfed cop yn fach iawn, ond mae yna un math sydd maint llaw, sef y Tarantwla.

Mae dros 600 o wahanol fathau o bryfed cop i'w cael ym Mhrydain.

Mae pobl sydd yn ofni pryfed cop yn dioddef o Arachnoffobia.

Daeth y wybodaeth o'r llyfr:
BWYSTFILOD BYCHAIN




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa ddau enw a ddefnyddir am yr anifail?
2. I ba grŵp o anifeiliaid mae'n perthyn?
3. Sawl ffang sydd gan y corryn?
4. Sut mae'r corryn yn dal ei fwyd?
5. Ymhle mae'r corryn yn dodwy ei wyau?
6. Sawl gwahanol fath o bryfed cop sydd ym Mhrydain?

Trafodwch:-

Mae llawer iawn o bobl yn ofnus iawn o gorynnod? Ydych chi'n un o'r rhain? Os nad ydych chi, beth sy'n eich gwneud chi i deimlo'n ofnus? Pam? Rhannwch eich teimladau gyda'r grŵp.





Cadw'r Car



Manon Elis

Gwraig 37 oed. Mae hi'n fam i ddau o blant. Mae hi a'i theulu ynh Nghaerfyrddin. Mae'n meddwl cael gwared o'i char. Teimla y byddai hyn yn helpu lleihau llygredd yn yr aer.

Beth ydy ei barn am ffyrdd eraill o deithio?

Mae car yn ddrud iawn. Mae parcio ceir yn anodd, does dim angen parcio bys na thren, felly mae'n haws peidio defnyddio car. Hefyd, mae cerdded neu reidio beic yn fwy iach.

Seimon Griffiths

Dyn 37 oed. Mae'n dad i ddau o blant. Mae e a'i deulu hefyd yn byw yn y dref hefyd. Mae e wrth ei fodd gyda'i gar newydd sbon, ac ni fyddai'n breuddwydio am fyw heb gar.

Beth ydy ei farn am ffyrdd eraill o deithio?

Mae e'n teimlo bod teithio mewn car yn llai costus na theithio ar drên. Dydy e byth yn defnyddio bws neu drên. Mae defnyddio car yn arbed llawer o amser.


Deunydd wedi ei
addasu o lyfr TASAU
2006




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ble mae Manon Elis yn y byw?
2. Beth ydy barn Manon Elis am geir?
3. Pa fath o gar sydd gyda Seimon Griffiths?
4. Beth sydd yn debyg ac yn wahanol, am Manon Elis a Seimon Griffiths?

Trafodwch:-



Beth yw eich barn chi am fyw heb gar?



Manon Elis

Gwraig 37 oed. Mae hi'n fam i ddau o blant. Mae hi a'i theulu yn byw yng Nghaerfyrddin. Mae'n meddwl cael gwared o'i char. Teimla y byddai hyn yn helpu i leihau llygredd yn yr aer.

Beth ydy ei barn am ffyrdd eraill o deithio?

Mae car yn ddrud iawn. Mae llawer o geir ar y ffordd yn achosi problemau. Mae parcio ceir yn anodd, does dim angen parcio bys na thrên, felly mae'n haws mynd i'r dref ar drafnidiaeth gyhoeddus. Hefyd, mae cerdded neu reidio beic yn fwy iach.

Seimon Griffiths

Dyn 37 oed, mae'n dad i ddau o blant. Mae e a'i deulu hefyd yn byw yn y dref hefyd. Mae e wrth ei fodd gyda'i gar newydd sbon, ac ni fyddai'n breuddwydio am fyw heb gar.

Beth ydy ei farn am ffyrdd eraill o deithio?


Mae e'n teimlo bod teithio mewn car yn llai costus na theithio ar drên. Dydy e byth yn defnyddio bus neu drên. Mae defnyddio car yn arbed llawer o amser.

Deunydd wedi ei
addasu o lyfr TASAU
2006



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth ydych chi'n ei wybod am Manon Elis?
2. Beth ydy barn Manon Elis am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus?
3. Beth ydy barn Manon Elis a Seimon Griffiths am deithio ar drenau?
4. Pa fath o gar sydd gyda Seimon Griffiths?
5. Ydy Manon Elis yn hoffi beicio? Pam?
6. Beth sy'n debyg, ac yn wahanol, am Manon Elis a Seimon Elis?



Trafodwch:-

Beth yw eich barn chi am fyw heb gar?



Bananas



Ffrwyth trofannol ydy'r banana.
Mae'n tyfu yn bennaf yn Y Caribî.

Maeth


Mae 452mg o botasiwm, 33mg o fagnesiwm a hyd at 2g o ffibr ym mhob banana. Mae llawer o fitamin B6 mewn bananas hefyd.



Mae pêl droedwyr, chwaraewyr tenis, seiclwr ac athletwyr yn dibynnu ar fananas i gadw lefelau egni i fyny yn ystod gêmiau a rasys.

Mae llawer o bobl ym Mhrydain yn prynu bananas Masnach Deg. Mae hyn yn meddwl bod ffermwyr bananas yn y Caribî yn cael pris teg am eu cynnyrch yn ogystal ag arian i wella'u cymunedau. Dyma'r hyn a ddywedodd George de Freitas, ffermwr bananas o St Lucia:-

“Gyda'r system fasnach deg, rydw i'n cael pris da am y bananas bob tro, ac hefyd mae'r gymuned wedi cael digon o arian i godi ysgol feithrin yn y pentref.”



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pa fath o ffrwyth ydy'r banana?
2. Sawl gram o ffibr sydd mewn banana?
3. Pa fath o bobl sy'n dibynnu ar fananas i gadw lefelau egni yn uchel?
4. Sut mae George de Freitas yn elwa o'r system fasnach deg?

Trafodwch:-



Ydych chi wedi clywed am bethau eraill sy'n cael eu gwerthu o dan y system Fasnach Deg?
Adroddwch yn ôl i'r grŵp.



Bananas



Ffrwyth trofannol ydy bananas. Fe'u tyfir yn bennaf ar Ynysoedd Windward yn Y Caribî.

Mae'n cymryd naw mis i fanana dyfu cyn iddi fod yn ddigon aeddfed i'w phigo.

Maeth


Mae 452mg o botasiwm, 33mg o fagnesiwm a hyd at 2g o ffibr ym mhob banana. Mae bananas hefyd yn ffynhonnell wych o'r fitamin B6.



Mae llawer o bobl ym Mhrydain yn prynu nwyddau Masnach Deg, gan gynnwys bananas. Golyga hyn fod ffermwyr bananas yn y Caribî yn cael pris teg am eu cynnyrch yn ogystal ag arian i wella'u cymunedau. Dyma'r hyn a ddywedodd George de Freitas, ffermwr bananas o St Lucia:- "Gyda'r system fasnach deg, rydw i'n cael pris da am y bananas bob tro, ac hefyd mae'r gymuned wedi cael digon o arian i godi ysgol feithrin yn y pentref."

Mae pêl droedwyr, chwaraewyr tenis, seiclwr ac athletwr yn dibynnu ar fananas i gadw lefelau egni i fyny yn ystod gêmiau a rasys.

Ar gyfartaledd mae Prydeinwyr yn bwyta 10 kg o fananas bob blwyddyn.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Ymhle y tyfir bananas yn bennaf?
2. Pam fod athletwyr yn bwyta llawer o fananas?
3. Ar gyfartaledd faint o fananas mae Prydeinwyr yn eu bwyta bob blwyddyn?
4. Pa fitamin sy'n bresennol mewn bananas?
5. Sut mae gwerthu bananas Masnach Deg yn helpu ffermwyr lleol yn Y Caribî?

Trafodwch:-

Ydych chi wedi clywed am nwyddau eraill sy'n cael eu cynhyrchu a'u gwerthu o dan y system Fasnach Deg? Adroddwch yn ôl i'r grŵp.



Aberaeron

Cyn 1807 pentref bach pysgota oedd Aberaeron. Daeth newidiadau mawr ar ôl i'r Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne benderfynu defnyddio'i arian i adeiladu harbwr. Cyn hyn roedd yr harbwr agosaf yn Aberarth.

Daeth llawer o seiri ac adeiladwyr i'r dref i weithio felly roedd yn rhaid adeiladu tai ar eu cyfer.

Mae'r dref wedi dod yn enwog am ei bod wedi cael ei chynllunio'n ofalus. Bob pen i strydoedd y dref mae tai mawr gyda thai llai o faint rhyngddynt. Maent hefyd yn enwog am fod yn strydoedd lliwgar iawn.

Roedd tua 70 o longau wedi cael eu hadeiladu yn yr harbwr.



Dyddiadau diddorol:

1807: dechrau adeiladu'r harbwr

1911: y rheilffordd yn dod i Aberaeron a gafodd effaith fawr ar y diwydiant llongau

1934: y llong fusnes olaf yn gadael yr harbwr

2007: dathlu dauganmlwyddiant o fodolaeth

Tachwedd y 13eg: y ffair flynyddol



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd yn gyfrifol am y newidiadau a ddaeth i'r dref?
2. Beth sy'n arbennig ynglŷn â thai Aberaeron?
3. Pam ddaeth diwedd ar y diwydiant llongau yn y dref?
4. Roedd 2007 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes y dref. Pam?
5. Faint o longau gafodd eu hadeiladu yn yr harbwr?

Edrychwch ar y llun canlynol o waith yr artist, Helen Elliott.

Beth sy'n debyg ac yn wahanol yn y ddau lun o'r dref?



Aberaeron

Cyn 1807 pentref bach pysgota oedd Aberaeron, ond ar ôl cael caniatâd i adeiladu harbwr daeth newidiadau mawr. Y Parchedig Alban Thomas Jones Gwynne oedd yn gyfrifol am y newidiadau yma a hynny ar ôl iddo ef a'i wraig etifeddu llawer iawn o arian. Fe benderfynon nhw ddefnyddio'r arian i adeiladu harbwr yn y dref. Cyn hyn roedd yr harbwr agosaf yn Aberarth.

Daeth llawer o seiri ac adeiladwyr i'r dref i weithio a buan iawn oedd rhaid adeiladu tai ar eu cyfer. Mae'r dref yn enwog am ei bod wedi cael ei chynllunio'n ofalus, gyda help y pensaer enwog, John Nash. Bob pen i strydoedd y dref mae tai mawr a thai llai o faint rhyngddynt. Mae strydoedd y dref yn enwog am fod yn lliwgar iawn.

Credir bod tua 70 o longau wedi cael eu hadeiladu yn yr harbwr.



Dyddiadau diddorol:

1807: dechrau adeiladu'r harbwr

1911: y rheilffordd yn dod i Aberaeron a gafodd effaith fawr ar y diwydiant llongau

1934: y llong fusnes olaf yn gadael yr harbwr


2007: dathlu dauganmlwyddiant o fodolaeth

Tachwedd y 13eg: y ffair flynyddol




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth ddigwyddodd ym 1807?
2. Pwy oedd yn gyfrifol am y newidiadau?
3. Beth sy'n arbennig ynglŷn â thai Aberaeron?
4. Beth oedd yn gyfrifol am ddiwedd y diwydiant llongau yn y dref?
5. Roedd 2007 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes y dref. Pam?
6. Faint o longau gafodd eu hadeiladu yn yr harbwr?



Edrychwch ar y llun canlynol o waith yr artist, Helen Elliott.

Beth sy'n debyg ac yn wahanol yn y ddau lun o'r dref?



Sgwrsio


- Gareth: Beth sy'n bod, Wyn? Rwyf ti'n dawel iawn.
Wyn: Dim.
Gareth: Mae rh'wbeth yn bod, rwy'n gw'bod.
Wyn: Alla i ddim dod i'r ymarfer rygbi heno.
Gareth: Pam?
Wyn: Alla i ddim dod, do's gen i ddim 'sgidie rygbi.
Gareth: Beth? Roedd gen ti rai newydd yr w'thnos diwetha'.
Wyn: Do's gen i ddim 'sgidie nawr, iawn?
Gareth: Ble maen nhw?
Wyn: Wyt ti'n addo peidio dweud wrth neb?
Gareth: Ydw, siŵr iawn.
Wyn: Rydw i wedi colli un ohonyn nhw.
Gareth: Beth? Shwt?
Wyn: Wn i ddim. Ar ôl yr ymarfer yr w'thnos diwetha' roeddwn wedi eu rhoi yn 'y mag yn barod i fynd. Pan gyrhaeddais gartre dim ond un esgid o'dd yn y bag.
Gareth: Wyt ti wedi dweud wrth dy fam?
Wyn: Beth wyt ti'n feddwl? Mae'r 'sgidie rygbi 'na 'di costio llawer i Mam. All hi ddim fforddio prynu rhai eraill i mi. Bydd rhaid i mi ddweud wrthi bod gen i fola tost heno er mwyn ca'l peidio mynd i'r ymarfer.
Gareth: Ond dwyt ti ddim i fod i ddweud celwydd.
Wyn: Dwi'n gw'bod. Ond beth wna' i?
Gareth: Fe gei di fenthyg fy hen rai i am heno, ac os na ddown ni o hyd i'r esgid goll fe ddof i gyda thi i 'weud wrth dy fam, olreit?
Wyn: Olreit, Gar. Diolch i ti.

Addasaid o'r sgwrs allan o'r
Uned Ffrindiau o'r gyfrol
HAWS DWEUD



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enwau'r ddau ffrind?
2. Beth sy'n poeni Wyn?
3. A fyddai hi wedi bod yn iawn i Wyn ddweud celwydd wrth ei fam?
4. Ydy Gareth yn ffrind da i Wyn? Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Sylwch: -

Pan fyddwch yn ysgrifennu sgwrs neu ddeialog mae'n syniad da i ddefnyddio iaith lafar, e.e. yn lle ysgrifennu'r gair *rh'wbeth* gellir ysgrifennu *rh'wbeth*. A fedrwch chi ddod o hyd i ragor o enghreifftiau?

Sgwrsio


- Gareth: Beth sy'n bod, Wyn? Rwy'ti'n dawel iawn.
Wyn: Dim.
Gareth: Dim? Mae rhwbeth yn bod, rwy'n gw'bod.
Wyn: Alla i ddim dod i'r ymarfer rygbi heno.
Gareth: Pam? Ti yw'r cynta' i gyrra'dd fel arfer?
Wyn: Alla i ddim dod, do's gen i ddim 'sgidie rygbi.
Gareth: Beth? Rodd gen ti rai newydd yr w'thnos diwetha'.
Wyn: Do's gen i ddim 'sgidie nawr, iawn?
Gareth: Ble maen nhw?
Wyn: Wyt ti'n addo peidio dweud wrth neb?
Gareth: Ydw, siŵr iawn.
Wyn: Rydw i wedi colli un ohonyn nhw.
Gareth: Beth? Shwt?
Wyn: Wn i ddim. Ar ôl yr ymarfer yr w'thnos diwetha' roeddwn wedi eu rhoi yn 'y mag yn barod i fynd. Pan gyrhaeddes gartre dim ond un esgid o'dd yn y bag.
Gareth: Wyt ti wedi dweud wrth dy fam?
Wyn: Beth wyt ti'n feddwl? Mae'r 'sgidie rygbi 'na 'di costio llawer i Mam. All hi ddim fforddio prynu rhai eraill i mi. Bydd rhaid i mi ddweud wrthi bod gen i fola tost heno er mwyn ca'l peidio mynd i'r ymarfer.
Gareth: Bydd rhaid i ti ddweud wrth dy fam. Dwyt ti ddim i fod i ddweud celwydd.
Wyn: Dwi'n gw'bod. Ond beth wna' i?
Gareth: Rwy'n gw'bod. Fe gei di fenthyg fy hen rai i am heno, ac os na ddown ni o hyd i'r esgid goll fe ddof i gyda thi i 'weud wrth dy fam, olreit?
Wyn: Olreit, Gar. Diolch i ti.

Addasaid o'r sgwrs allan o'r
Uned Ffrindiau o'r gyfrol
HAWS DWEUD



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth yw enwau'r ddau ffrind?
2. Beth sy'n poeni Wyn?
3. Sut ydych chi'n gwybod bod Wyn yn hoff iawn o rygbi?
4. Sut mae teimladau Wyn yn newid rhwng dechrau a diwedd y sgwrs?
5. A fyddai hi wedi bod yn iawn i Wyn ddweud celwydd wrth ei fam? Pam? Beth fydddech chi wedi gwneud yn yr un sefyllfa?
6. Ydy Gareth yn ffrind da i Wyn? Pam ydych chi'n meddwl hyn?



Sylwch: -

Pan fyddwch yn ysgrifennu sgwrs neu ddeialog mae'n syniad da i ddefnyddio iaith lafar, e.e. yn lle ysgrifennu'r gair *rhwbeth* gellir ysgrifennu *rh'wbeth*. A fedrwch chi ddod o hyd i ragor o enghreifftiau?

y Titanic



Ym 1912 adeiladwyd llong arbennig o'r enw'r Titanic. Costiodd ddwy filiwn a hanner o bunnoedd i'w hadeiladu. Dywedwyd nad oedd y llong yma'n medru suddo. Ar y 12fed o Ebrill 1912, dechreuodd Y Titanic ar ei mordaith gyntaf o borthladd Southampton. Roedd yna 800 o griw a 1,200 o deithwyr ar ei bwrdd.


Aeth y diwrnodau cyntaf yn hwylus wrth iddynt deithio tuag at yr Amerig. Ond ar y dydd Sul oerodd y tywydd a daeth rhybudd i gapten y llong fod yna dalpau mawr o iâ yn y môr o'u blaen. Yn anffodus, tarodd y llong yn erbyn yr iâ, a dechreuodd y llong suddo. Llwyddodd rhai o'r teithwyr i ddianc i'r badau achub ond doedd dim digon i ddal y teithwyr i gyd. Yn anffodus collodd 1,517 o bobl eu bywydau. Siom fawr oedd sylweddoli bod y llong nad oedd fod i suddo wedi suddo i waelod y môr.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Faint gostiodd y llong i'w hadeiladu?
2. Beth oedd i fod yn arbennig ynglŷn â'r llong?
3. Pryd aeth y Titanic ar ei mordaith gyntaf?
4. Faint o bobl oedd ar ei bwrdd?
5. I ble'r oedd y llong yn mynd?
6. Beth oedd y prif reswm fod yna gymaint o bobl wedi colli eu bywydau?


Trafodwch:-



Ydych chi'n meddwl bod bai ar rywun fod y Titanic wedi suddo? Pam?


Pe baech chi'n gapten ar y llong beth fydddech chi wedi gwneud er mwyn ceisio achub y teithwyr a'r criw?

Y Titanic



Ym 1912 adeiladwyd llong fawr—y llong deithwyr fwyaf o'i math yn ystod y cyfnod. Costiodd ddwy filiwn a hanner o bunnoedd i'w hadeiladu. Credwyd yn gryf nad oedd modd iddi suddo. Roedd yna gynnwrf mawr, pan ar y 12fed o Ebrill 1912, dechreuodd Y Titanic ar ei mordaith gyntaf o borthladd Southampton. Roedd yna 800 o griw a 1,200 o deithwyr ar ei bwrdd.

Bu'r ddeuddydd cyntaf yn llawn o hwyl a chyffro wrth iddynt deithio tuag at yr Amerig. Ond ar y dydd Sul oerodd y tywydd a daeth rhybudd i gapten y llong fod yna dalpau mawr o iâ yn y môr o'u blaen. Yn anffodus, tarodd y llong yn erbyn yr iâ, ac ymhen dwy awr a deugain munud yn unig suddodd y llong. Llwyddodd rhai o'r teithwyr i ddianc i'r badau achub ond doedd dim digon i ddal y teithwyr i gyd. Dyma'r drychineb forol fwyaf erioed ar ôl i 1,517 o bobl golli eu bywydau. Siom fawr oedd sylweddoli bod y llong nad oedd fod i suddo wedi suddo.



Ym 1997, cynhyrchwyd ffilm am yr hanes. Daeth yn ffilm boblogaidd iawn.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd i fod yn arbennig ynglŷn â'r Titanic?
2. Pryd aeth y llong ar ei mordaith gyntaf?
3. Faint o bobl oedd ar ei bwrdd?
4. Faint o amser gymerodd hi i'r llong suddo?
5. Beth oedd y prif reswm fod yna gymaint o bobl wedi colli eu bywydau?
6. Ydych chi'n meddwl bod bai ar rywun fod y Titanic wedi suddo? Pam?

Oeddech chi'n gwybod?

Gair cyfansawdd yw pan fod dau air yn cael eu rhoi at ei gilydd i greu un gair newydd, e.e.

môr + taith = mordaith.

A fedrwch chi ddod o hyd i air cyfansawdd arall yn y darn darllen?

A fedrwch chi feddwl am ragor o enghreifftiau?

Llanerchaeron

Plasdy ar lan yr afon Aeron yw Llanerchaeron. Fe gafodd ei gynllunio gan y pensaer enwog, John Nash. Colonel William Lewis oedd y perchennog cyntaf nôl yn yr 1790'au. Erbyn heddiw mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am y lle, ac mae ar agor i'r cyhoedd. Mae'n boblogaidd iawn am ei fod yn esiampl wych o sut oedd pethau'n arfer bod. Mae yno adeiladau arbennig i ddangos sut oedden nhw'n arfer bragu cwrw, halltu cig, golchi dillad, corddi menyn a gwneud caws. Yn ogystal â hyn, mae yna erddi o bob math ac adeiladau fferm i'w gweld.



John Nash


Cafodd ei eni yn Llundain ar y 18fed o Ionawr, 1752. Hyfforddodd fel pensaer. Symudodd i Gymru ar ôl etifeddu llawer o arian. Daeth yn enwog am gynllunio llawer o adeiladau yn Llundain ac yn fwy lleol i ni, Plas Llanerchaeron.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd perchennog cyntaf Plas Llanerchaeron?
2. Pwy gynlluniodd y Plas?
3. Pam fod Llanerchaeron yn boblogaidd gan ymwelwyr?
4. Ydych chi wedi ymweld ag adeilad hanesyddol yn ddiweddar? Ble fuoch chi? Beth weloch chi?

Trefnwch:



Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am lawer o lefydd yng Nghymru. Dewch o hyd i chwech o lefydd sydd o dan eu gofal ac yna ail ysgrifennwch y rhestr yn ôl trefn Yr Wyddor.

Llanerchaeron

Plasdy ar lan yr afon Aeron yw Llanerchaeron. Fe gafodd ei gynllunio gan y pensaer enwog, John Nash. Colonel William Lewis oedd y perchennog cyntaf nôl yn yr 1790'au. Erbyn heddiw mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am y lle ac mae ar agor i'r cyhoedd. Mae'n boblogaidd iawn am ei fod yn esiampl wych o sut oedd pethau'n arfer bod. Mae yno adeiladau arbennig i ddangos sut oedden nhw'n arfer bragu cwrw, halltu cig, golchi dillad, corddi menyngwneud caws. Yn ogystal â hyn, mae yna erddi o bob math ac adeiladau fferm i'w gweld.

Pri\$ mynediad:

Oedolyn: £6.90

Plentyn: £3.50

Tocyn Teulu: £17.50



John Nash


Cafodd ei eni yn Llundain ar y 18fed o Ionawr, 1752. Hyfforddodd fel pensaer. Symudodd i Gymru ar ôl etifeddu llawer o arian, ond ar ôl colli ei ffortiwng fe ail-gydiodd yn ei waith fel pensaer. Daeth yn enwog am gynllunio llawer o adeiladau yn Llundain ac yn fwy lleol i ni, Plas Llanerchaeron.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy oedd perchennog cyntaf Plas Llanerchaeron?
2. Pwy gynlluniodd Y Plas?
3. Pwy sy'n gofalu am y Plas heddiw?
4. Pam fod Llanerchaeron yn boblogaidd gan ymwelwyr?
5. Faint mae Tocyn Teulu'n ei gostio?
6. Ydych chi wedi ymweld ag adeilad hanesyddol yn ddiweddar? Ble fuoch chi? Beth weloch chi?

Trefnwch:



Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am lawer o lefydd yng Nghymru. Dewch o hyd i wyth o lefydd sydd o dan eu gofal ac yna ail ysgrifennwch y rhestr yn ôl trefn Yr Wyddor.

Yr Wyddfa

Mynydd Uchaf Cymru

Bob blwyddyn mae tua 350,000 o bobl yn cerdded i'r copa a 60,000 arall yn cyrraedd y copa ar y trê'n bach. Ar ddiwrnodau clir gellir gweld golygfeydd pell — mor bell â'r Iwerddon ac Ynys Manaw ar adegau. Y lle pellaf y gellir ei weld yw Copa Merrick sydd 144 o filltiroedd i ffwrdd.

Rheilffordd Eryri

Mae yna drê'n bach yn gadael pentref Llanberis ac yn rhedeg am dros 4 milltir i gopa'r Wyddfa. Ar hyd y daith mae'n stopio mewn sawl gorsaf—Rhaeadr, Hebron, Hanner Ffordd a Chlogwyn cyn cyrraedd y copa. Agorwyd y rheilffordd ar y 6ed o Ebrill, 1896 ac yn anffodus bu damwain ar y diwrnod cyntaf pan ddaeth y trê'n oddi ar y cledrau. Bu farw un o'r teithwyr, Elis Roberts, pan neidiodd allan o'r trê'n.



Hafod Eryri

Roedd mis Mehefin 2009 yn gyfnod cyffrous iawn yn hanes yr Wyddfa. Dyma agor Hafod Eryri, sef yr adeilad newydd ar y copa. Nid dyma'r adeilad cyntaf, gan fod amryw o adeiladau wedi bod yno ers y cwt cyntaf nôl ym 1820. Cost yr adeilad newydd oedd £8.3 miliwn.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Tua faint o bobl sy'n cyrraedd copa'r Wyddfa bob blwyddyn trwy deithio ar y trê'n?
2. Pa mor bell yw Copa Merrick o'r Wyddfa?
3. Mewn sawl gorsaf mae'r trê'n bach yn stopio?
4. Beth yw Hafod Eryri?
5. Faint gostiodd Hafod Eryri?

Edrychwch:

Defnyddiwch Atlas a dewch o hyd i dref Aberystwyth.

- Sut fydddech chi'n cyrraedd Yr Wyddfa?
- Ar ba ffyrdd fydddech chi'n teithio?
- Oes mwy nag un ffordd i gyrraedd yno?



Yr Wyddfa

Mynydd Uchaf Cymru

Bob blwyddyn mae tua 350,000 o bobl yn cerdded i'r copa a 60,000 arall yn cyrraedd y copa ar y trê'n bach. Ar ddiwrnodau clir gellir gweld golygfeydd anhygoel—mor bell â'r Iwerddon ac Ynys Manaw ar adegau. Y lle pellaf gellir ei weld yw Copa Merrick, sef un o fynyddoedd De'r Alban, sydd 144 o filltiroedd i ffwrdd.

Rheilffordd Eryri

Mae yna drê'n bach yn gadael pentref Llanberis ac yn rhedeg am dros 4 milltir i gopa'r Wyddfa. Ar hyd y daith mae'n stopio mewn sawl gorsaf—Rhaeadr, Hebron, Hanner Ffordd a Chlogwyn cyn cyrraedd y copa. Ar ddiwrnodau garw dydy'r trê'n bach ddim yn gallu cyrraedd y copa ac felly'n gadael y teithwyr yng ngorsaf Clogwyn.

Agorwyd y rheilffordd ar y 6ed o Ebrill, 1896 ac yn anffodus bu damwain ar y diwrnod cyntaf wrth i'r trê'n ddod oddi ar y cledrau. Bu farw un o'r teithwyr, Elis Roberts, pan neidiodd allan o'r trê'n.

Hafod Eryri

Roedd mis Mehefin 2009 yn gyfnod cyffrous iawn yn hanes yr Wyddfa. Dyma agoriad swyddogol Hafod Eryri, sef yr adeilad newydd ar y copa. Nid dyma'r adeilad cyntaf, gan fod amryw o adeiladau wedi bod yno ers y cwt cyntaf nôl ym 1820. Ond oherwydd y tywydd garw roedd yn rhaid buddsoddi mewn adeilad newydd a dyma ddechrau ar y gwaith o godi Hafod Eryri yn 2006. Cost yr adeilad newydd oedd £8.3 miliwn.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Tua faint o bobl sy'n cyrraedd copa'r Wyddfa bob blwyddyn?
2. Beth sy'n arbennig ynglŷn â Chopa Merrick?
3. Beth sy'n digwydd i'r teithwyr ar ddiwrnod garw?
4. Beth ddigwyddodd yn ystod taith gyntaf y trê'n bach?
5. Beth yw Hafod Eryri?
6. Faint gostiodd Hafod Eryri?

Edrychwch:

Defnyddiwch Atlas a dewch o hyd i dref Aberystwyth.

- Sut fydddech chi'n cyrraedd Yr Wyddfa?
- Ar ba ffyrdd fydddech chi'n teithio?
- Oes mwy nag un ffordd i gyrraedd yno?





Porthladd Aberteifi

Un tro, roedd Aberteifi yn borthladd prysur ac enwog iawn. Roedd dros 300 o longau wedi'u cofrestru yn y porthladd. Roedd yn fwy pwysig na phorthladdoedd Abertawe a Chaerdydd hyd yn oed. Yn ystod Oes y Tuduriaid roedd nwyddau fel llechi, pysgod a chynnyrch gwlan o Ddyffryn Teifi yn cael eu hallforio. Mewnforiwyd nifer o nwyddau hefyd gan gynnwys glo, llestri a ffrwythau.

Roedd tair iard adeiladu llongau yn y dref ac fe adeiladwyd dros 200 o longau ar lannau'r Teifi.


Pan ddaeth rheilffordd Y Cardi Bach i'r dref ym 1833 daeth oes aur porthladd Aberteifi i ben.

Heddiw does dim llongau nwyddau mawr i'w gweld yn Aberteifi. Rydych yn llawer yn fwy tebygol o weld ambell i ganŵ a chwch hwylio. Lle i fwynhau ac i ymlacio ydy glannau'r Afon Teifi heddiw.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sawl llong oedd wedi'i chofrestru yn Aberteifi?
2. Pa fath o nwyddau oedd yn cael eu hallforio o borthladd Aberteifi?
3. Sawl llong a adeiladwyd yn y porthladd?
4. Meddyliwch am 5 ansoddair i ddisgrifio porthladd Aberteifi pan oedd yn ei anterth.



Ailddarllenwch y darn a sylwch ar beth sy'n digwydd i eiriau sy'n dilyn yr arddodiad o.
A fedrwch chi feddwl am reol fydd yn eich helpu i gofio?



Porthladd Aberteifi

Un tro, roedd Aberteifi yn borthladd prysur ac enwog iawn. Yn ei anterth roedd dros 300 o longau wedi'u cofrestru yn y porthladd—sef teirgwaith mwy na phorthladd Abertawe a saith gwaith cyfanswm Caerdydd. Roedd porthladd yn Aberteifi ers yr Oesoedd Canol. Datblygodd ymhellach yn Oes y Tuduriaid ac roedd nwyddau fel llechi, pysgod a chynnyrch gwlân o Ddyffryn Teifi yn cael eu hallforio. Mewnforiwyd nifer o nwyddau hefyd gan gynnwys glo, llestri a ffrwythau.

Roedd tair iard adeiladu llongau yn y dref ac fe adeiladwyd dros 200 o longau ar lannau'r Teifi.


Dyfodiad rheilffordd Y Cardi Bach a ddaeth ag oes aur porthladd Aberteifi i ben ym 1833. Hwylodd y llong olaf o Aberteifi tan 1942.

Bellach nid oes llongau nwyddau mawr i'w gweld yn Aberteifi. Rydych yn llawer yn fwy tebygol o weld ambell i ganŵ a chwch hwyllo. Lle i fwynhau ac i ymlacio ydy glannau'r Afon Teifi heddiw.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Sawl cwch oedd wedi'i chofrestru yn y porthladd?
2. Pa fath o nwyddau oedd yn cael eu mewnforio?
3. Beth oedd enw'r rheilffordd a ddaeth i Aberteifi ym 1833?
4. Pa fath o gychod sydd yn Aberteifi heddiw?
5. Sawl iard adeiladu llongau oedd yn Aberteifi?
6. Meddyliwch am 8 ansoddair i ddisgrifio porthladd Aberteifi pan oedd yn ei anterth.



Ailddarllenwch y darn a sylwch ar beth sy'n digwydd i eiriau sy'n dilyn yr arddodiad o.
A fedrwch chi feddwl am reol fydd yn eich helpu i gofio?

Chwedl Rhys a Meinir

Bachgen golygus oedd Rhys ac roedd Meinir yn ferch hardd iawn. Roedden nhw'n ddau gariad. Ar ddiwrnod ei phriodas, gwisgodd Meinir ei ffrog ac yna rhedodd i guddio.

Ar ddiwrnod priodas ym mhentref Nantgwrtheyrn byddai'r briodferch yn mynd i guddio ac yna roedd bechgyn y pentref fod i chwilio amdani. Ar ôl dod o hyd iddi roedd y bechgyn i fod ei chario i'r eglwys at y priodfab.

Aeth y bechgyn i chwilio ym mhobman. Ond ble roedd Meinir? Doedd dim sôn amdani yn yr un man. Dechreuodd pawb boeni amdani.

Yn yr Eglwys, roedd Rhys yn aros ac yn aros. Ble roedd Meinir a'r bechgyn? Dechreuodd boeni'n ofandwy am fod Meinir mor hwyr.

Yn sydyn agorodd drws yr eglwys ac yno'n sefyll roedd y bechgyn. Dywedon nhw nad oedd sôn am Meinir. Rhedodd Rhys yn wyllt allan o'r Eglwys er mwyn chwilio amdani.

Am flynyddoedd wedyn cerddodd Rhys ar hyd y caeau, ar y traeth ac ar lan yr afon yn chwilio am ei gariad. Galwodd enw Meinir drwy'r dydd. Yn ôl y sôn pan oedd yn hen ŵr trist taflodd ei hun i'r môr.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, ar ddiwrnod stormus, cafodd hen goeden fawr ei chwympo'n y pentref. Yng nghanol y goeden roedd sgerbwd—sgerbwd â gwallt hir melyn. Roedd Meinir wedi mynd i guddio yn y goeden ac wedi methu dringo allan.


Am flynyddoedd wedyn bu pentref Nantgwrtheyrn yn le trist iawn. Erbyn heddiw mae'n enwog am fod canolfan arbennig i'w gael yno i ddysgu Cymraeg i oedolion.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd enw'r pentref?
2. Beth oedd yr arferiad ar ddiwrnod priodas?
3. Pam oedd Rhys yn crwydo'r caeau, y traeth ac ar lan yr afon?
4. Pryd ac ymhle y daethpwyd o hyd i Meinir?

Trafodwch:



Dychmygwch eich bod chi'n gweithio i bapur newydd lleol pan ddaethpwyd o hyd i sgerbwd Meinir yn y goeden. Ydych chi'n gallu meddwl am bennawd bachog i'r erthygl? Ceisiwch feddwl am nifer o rai gwahanaol ac yna trafodwch fel grŵp i ddewis yr un gorau.

Chwedl Rhys a Meinir

Bachgen golygus oedd Rhys ac roedd Meinir yn ferch hardd iawn. Roedden nhw'n ddau gariad. Ar ddiwrnod ei phriodas, gwisgodd Meinir ei ffrog ac yna rhedodd i guddio.

Roedd hi'n arferiad ym mhentref Nantgwrtheyrn ar ddiwrnod priodas i'r briodferch fynd i guddio, yna roedd bechgyn y pentref fod i chwilio amdani. Ar ôl dod o hyd iddi roedd y bechgyn i fod ei chario i'r eglwys at y priodfab.

Aeth y bechgyn i chwilio ar y traeth, wrth yr afon ac yn y caeau. Ond ble roedd Meinir? Doedd dim sôn amdani yn yr un man. Dechreuodd bawb boeni amdani.

Yn yr Eglwys, roedd Rhys yn aros ac yn aros. Ble roedd Meinir a'r bechgyn? Dechreuodd boeni'n ofandwy am fod Meinir mor hwyr.

Yn sydyn agorodd drws yr eglwys ac yno'n sefyll roedd y bechgyn. Dywedon nhw nad oedd sôn am Meinir. Rhedodd Rhys yn wyllt allan o'r Eglwys er mwyn chwilio amdani.

Am flynyddoedd wedyn cerddodd Rhys ar hyd y caeau, ar y traeth ac ar lan yr afon yn chwilio am ei gariad. Galwodd enw Meinir drwy'r dydd. Yn ôl y sôn pan oedd yn hen ŵr trist taflodd ei hun i'r môr.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, ar ddiwrnod stormus, cafodd hen goeden fawr ei chwympo'n y pentref. Yng nghanol y goeden roedd sgerbwd—sgerbwd â gwallt hir melyn. Roedd Meinir wedi mynd i guddio yn y goeden ac wedi methu dringo allan.

Am flynyddoedd wedyn bu pentref Nantgwrtheyrn yn le trist iawn. Erbyn heddiw mae'n enwog am fod canolfan arbennig i'w gael yno i ddysgu Cymraeg i oedolion.




Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth oedd enw'r pentref?
2. Beth oedd yr arferiad ar ddiwrnod priodas?
3. Pam oedd Rhys yn crwydo'r caeau, y traeth ac ar lan yr afon?
4. Sut oedd Rhys yn teimlo? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
5. Pryd ac ymhle y daethpwyd o hyd i Meinir?
6. Pa fath o bobl sy'n mynd i Nantgwrtheyrn heddiw?

Trafodwch:

Dychmygwch eich bod chi'n gweithio i bapur newydd lleol pan ddaethpwyd o hyd i sgerbwd Meinir yn y goeden. Ydych chi'n gallu meddwl am bennawd bachog i'r erthygl? Ceisiwch feddwl am nifer o rai gwahanol ac yna trafodwch fel grŵp i ddewis yr un gorau.



Ψ Daith

Ym 1865 gwnaeth cant a hanner o Gymry ymfudo i ben draw'r byd. Fe benderfynon nhw fynd i wlad yr Ariannin sydd yn Ne America i ddechrau eu bywyd newydd. Patagonia oedd enw'r ardal. Roedd Patagonia dros saith mil o filltiroedd o Gymru.

Dyddiadur un ferch a aeth ar y daith i Batagonia

25 Mai 1865
Gadael Lerpwl ar y Mimosa. Dyma ddechrau ein taith i'r wlad well. Mae'r llong yma mor fawr. Mae'n llawer mwy na'n tŷ ni!

28 Mai 1865
Heddiw rydyn ni'n mynd allan i'r môr agored. Mae fy mŷ i'n corddi wrth ei weld.

29 Mai 1865
O mam bach, dwi'n sâl. Mae'r tonnau bron mor uchel â'r llong a rydyn ni'n siwr o foddi. Rydyn ni'n gwreddio ar Dduw i ofalu amdanom ni.

10 Mehefin 1865
Dyma ddiwrnod du iawn. Heddiw bu farw un o'r plant yr oeddwn i wedi bod yn gwarchod. Cafodd ei chladdu drwy ei thafu i'r môr.

28 Mehefin 1865
Ddœ fe wnaethon ni groesi'r cyhydedd, ond yn anffodus mae ffôrdd bell iawn i fynd eto.

27 Gorffennaf 1865
Cyrraedd o'r diwedd! Mae'r lle yma'n wahanol iawn i Gymru a dœddwn i ddim yn hapus o wybod bod yn rhaid i mi gysgu mewn ogof henô.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.


1. Beth ddigwyddodd ym 1865?
2. Pa mor bell yw Patagonia o Gymru?
3. Beth oedd enw'r llong?
4. Sut oedd y ferch yn teimlo ar y 29ain o Fai?
5. Sut oedd y ferch yn teimlo pan gyrhaeddodd hi Patagonia?

Trafodwch:-

Yn y dyddiadur disgrifir un diwrnod fel "diwrnod du iawn".

Beth yw ystyr "du"?

Ydych chi'n gallu meddwl am liwiau eraill sy'n cyfleu gwahanol deimladau, e.e. beth mae'r lliw coch / melyn / glas yn ei feddwl i chi?



Ψ Daith

Ym 1865 gwnaeth cant a hanner o Gymry ymfudo i ben draw'r byd. Roedd Michael D Jones yn barod i arwain y Cymry i fywyd gwell a phenderfynwyd mynd i'r Ariannin yn Ne America. Patagonia oedd enw'r ardal. Roedd Patagonia dros saith mil o filltiroedd o Gymru.

Dyddiadur un ferch a aeth ar y daith i Batagonia

25 Mai 1865
Gadael Lerpwl ar y Mimosa. Dyma ddechrau ein taith i'r wlad well. Mae'r llong yma mor fawr. Mae'n llawer mwy na'n tŷ ni!

28 Mai 1865
Hwylis i lawr afon Mersi fuon ni hyd yn hyn, ond heddiwr rydyn ni'n mynd allan i'r môr agored. Mae fy mŷl i'n corddi wrth ei weld.

29 Mai 1865
O mam bach, dwi'n sâl. Mae'r tonnau bron mor uchel â'r llong a rydyn ni'n siwr o fodd. Rydyn ni'n gweddio ar Dduw i ofalu amdanom ni.

10 Mehefin 1865
Dyma ddiwrnod du iawn. Heddiwr bu farw un o'r plant yr oeddwn i wedi bod yn gwarchod. Cafodd ei chladdu drwy ei thafu i'r môr.

28 Mehefin 1865
Mae bywyd wedi bod yn undonog iawn ar y môr, ond ddœ fe wnaethon ni groesi'r cyhydedd. Ond yn anffodus mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd De'r Amerig.


27 Gorffennaf 1865
Cyrraedd o'r diwedd! Mae'r lle yma'n wahanol iawn i Gymru a doeddwn i ddim yn hapus o wybod bod yn rhaid i mi gysgu mewn ogef henô.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth ddigwyddodd ym 1865?
2. Pa mor bell yw Patagonia o Gymru?
3. Beth oedd enw'r llong?
4. Sut oedd y ferch yn teimlo ar y 29ain o Fai?
5. Faint o amser dreuliodd hi ar y llong?
6. Sut oedd y ferch yn teimlo pan gyrhaeddodd hi Batagonia?

Trafodwch:-




Yn y dyddiadur disgrifir un diwrnod fel "diwrnod du iawn".

Beth yw ystyr "du"?

Ydych chi'n gallu meddwl am eiriau eraill sy'n meddwl yr un peth â:

mawr / bach / cas / caredig / ?



Siencyn y trempyn
Sy'n drewi fel pysgodyn!
Siencyn y trempyn
Yn begera am friwsionyn.

Dyna beth mae'r plant yn ei weiddi pan fyddan nhw'n fy nilyn i o gwmpas y lle gan alw enwau arna i. Nid Siencyn ydi fy enw go iawn, ond mae Siencyn yn odli efo trempyn, a dyna'r cwbl ydw i iddyn nhw—hen drempyn budr, blêr.

A dweud y gwir, dwi'n hoffi'r enw erbyn hyn. Mae'n gwneud y tro i'r dim gan nad ydw i'n cofio fy enw fy hun. Efallai rhyw ddydd y daw rhywbeth i esbonio pwy ydw i ac o ble dwi'n dod. Am y tro, dwi'n crwydro. Dwi'n dilyn fy nhrwyn ar hyd ac ar led y wlad gan ganolbwyntio ar bethau pwysig fel y pryd bwyd nesaf, a ble dwi am gysgu heno. Ac yn y cyfamser mae yna bobl ddiddorol yn croesi fy llwybr—rhai yn glên ac eraill yn gas.


Allan o'r nofel :
SIENCYN A DAN DRAED
(Eurgain Haf)



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Pwy sy'n siarad yn y darn?
2. Beth mae'r plant yn ei weiddi arno?
3. Pam, yn eich barn chi, fod y plant yn gweiddi ar ei ôl?
Ydych chi'n cytuno â nhw?
4. “..... *hen drempyn budr, blêr*” - beth yw ystyr hyn?
5. Pa bethau sydd ar ei feddwl?
6. Pa fath o bobl mae e'n eu cwrdd?

Meddylwch:



Edrychwch ar y llun sydd ar y clawr.
A fedrwch chi feddwl am
ansoddeiriau addas i ddisgrifio
Siencyn?

Siôn Cwilt

Mae'r hen Sir Aberteifi yn enwog am sawl peth—golygfeydd prydfferth, gwersyll yr Urdd Llangrannog, cobiau Cymreig a llawer mwy. Un peth arall ydy smyglwyr. Dyma sut rydyn ni'n dod i gwrdd ag un ohonynt yn un o nofelau yr awdur, T Llew Jones.

Aeth Mari at y drws.

"Dewch i mewn," meddai wrth y dieithryn. Gwthiodd y dyn heibio iddi ac i mewn i'r gegin. Edrychodd o gwmpas yr ystafell cyn camu ymlaen at y gannwyll a'i diffodd. Yn awr roedd yr ystafell yn dywyll ac ni fedrai Mari weld wyneb y dieithryn o gwbl. Gallai weld ei fod yn gwisgo rhyw fath o glogyn.

Dechreuodd y dieithryn siarad yn isel—mor isel fel yr oedd hi'n anodd clywed ei neges. Roedd yn sôn am gynlluniau mawr i smyglo—cynlluniau a godai ofn ar Mari. Roedd e'n gofyn am help Mari a'i bechgyn i fedru gwneud y fath smyglo. Cododd y dieithryn ar ei draed. Fflachiodd golau o'r tân a gwelodd Mari fod ei glogyn yn glytiau i gyd.

"Beth yw eich enw, Syr?" gofynnodd iddo.

"Fe wna unrhyw enw'r tro. Galwch fi'n Siôn....." oedd ei ateb.

"Siôn Cwilt," meddai Mari'n sydyn


Erbyn heddiw mae'r cymeriad Siôn Cwilt yn rhan o'n hanes ni—fel y smyglwr a ddaeth yn enwog am drechu'r Gyfraith.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Am beth mae'r hen Sir Aberteifi'n enwog?
2. Beth yw ystyr *dieithryn*?
3. Pa adeg o'r dydd yw hi? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
4. Pam oedd y dieithryn wedi galw i weld Mari?
5. Beth mae smyglwyr yn gwneud?
6. Sut y cafodd y dieithryn yr enw *Siôn Cwilt*?

Mae'r darn darllen yn rhan o un o nofelau yr awdur T Llew Jones.



Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?

A fydd Mari'n barod i'w helpu?

A fydd cynlluniau Siôn Cwilt yn llwyddo?

Dic Penderyn

Cafodd Richard Lewis ei eni yn y flwyddyn 1808. Roedd yn fab i löwr ac yn byw yn Aberafon, Sir Forgannwg. Roedd y teulu'n dlawd am nad oedd y glöwyr yn cael eu talu llawer am eu gwaith caled.

Pan oedd Dic yn unarddeg symudodd y teulu i Ferthyr Tudful a dechreuodd Dic weithio'n y pwl gyda'i dad. Sylweddolodd Dic fod angen i rywun siarad dros y glöwyr ac aeth at y meistri i ddweud bod y glöwyr yn gweithio'n galed am gyflogau llawer rhy fach. Collodd Dic ei waith am nad oedd y meistri am glywed neb yn cwyno.

Yn dilyn hyn, cafodd waith mewn pwl glo arall ym mhentref Penderyn. Daeth yn ffrindiau gyda Lewis Lewis, neu Lewsyn yr Heliwr fel y byddai'n cael ei alw, ac roedd y ddau am wneud rhywbeth i helpu sefyllfa'r glöwyr.

Roedd Crawshay yn ddyn cas ac yn un o feistri'r pyllau ac yn lle codi eu cyflogau fe benderfynodd dalu llai iddyn nhw am wneud union yr un gwaith. Yn fuan wedi hyn, aeth y gweithwyr i gyd ar streic gan orymdeithio trwy strydoedd Merthyr. Dic oedd yn eu harwain. Danfonwyd milwyr i gadw trefn ar y streicwyr. Dechreuodd y milwyr danio eu gynnu a chafodd undeg chwech o ddynion eu lladd. Trannoeth trefnwyd cyfarfod mawr i'r glöwyr a daeth y milwyr i ymosod ar y streicwyr. Lladdwyd un o'r milwyr. Yn fuan wedi hyn, cafodd Dic Penderyn a Lewsyn yr Heliwr eu harestio am ladd Donald Black, y milwr.

Yn y llys penderfynwyd bod y ddau'n euog a chrogi oedd yr unig gosb am ladd milwr. Cafodd Lewsyn ei alltudio i Awstralia ond ar Awst 13eg 1831 cafodd Dic Penderyn ei grogi yng Nghaerdydd.

Dros ddeugain mlynedd wedi hyn gwnaeth Ieuan Parker gyfaddef mai ef oedd wedi trywanu Donald Black, y milwr.

Roedd Dic wedi cael ei grogi am rywbeth nad oedd ef wedi ei wneud.



Helpwch Ditectif Dan i ddod o hyd i'r atebion.

1. Beth fedrwch chi ei ddweud am deulu Richard Lewis?
2. Pa ddau beth ddigwyddodd iddo pan oedd yn unarddeg oed?
3. Pam oedd Dic wedi colli ei waith?
4. Pam oedd y glöwyr wedi streicio?
5. Beth aeth o'i le yn ystod y streicio?
6. Ydych chi'n cytuno â'r hyn ddigwyddodd i'r ddau ffrind? Pam?



Dysgwch:

Pan rydyn ni'n dweud y dyddiad dydyn ni ddim yn dweud:

"yr undeg tri o Awst" ond yn dweud
"y trydydd ar ddeg o Awst".

A fedrwch chi ddweud y dyddiadau canlynol yn gywir?

5 o Dachwedd

2 o Fai

15 o Fawrth

Beth am ddweud eich dyddiad pen-blwydd yn gywir?

